HM Prison &
Probation Service

# Fframwaith ar gyfer Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai 2021-27

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi

gydag Eglwys Loegr

a'r Eglwys yng Nghymru

Diweddarwyd Mehefin 2023

# Fframwaith ar gyfer Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai

# 2021-27

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi

gydag Eglwys Loegr

a’r Eglwys yng Nghymru

Diweddarwyd Mehefin 2023

# Cynnwys

Cynnwys ........................................................................................................1

Geirfa...........................................................................................................3

Rhagair ........................................................................................................4

Nod ..............................................................................................................5
Trosolwg o'r Gwasanaethau Caplaniaeth a Ffydd yn HMPPS... 6
Trosolwg o Gaplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn HMPPS
…………………………….... 8

Sail Resymegol Ddiwinyddol Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai ..........................9

Gosod y Cyfeiriad ar gyfer Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai ...........................11

Blaenoriaethau ………...........................................................................................12

Casgliad ......................................................................................................15

Cysylltu ......................................................................................................15

# Rhestr Termau

**Cynghorydd Anglicanaidd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS):**
yn gyfrifol am ddarparu a gweithredu Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn HMPPS.

**Grŵp Datblygu'r Gaplaniaeth Anglicanaidd:**
yn darparu cymorth i Gynghorydd Anglicanaidd HMPPS.

**Band 5**: graddfa HMPPS ar gyfer Caplaniaid.

**Band 7:** graddfa HMPPS ar gyfer Caplaniaid Rheoli.

**Prif Gaplan / Pennaeth y Gwasanaethau Caplaniaeth a Ffydd**:
yn gyfrifol am redeg y Gwasanaethau Caplaniaeth a Ffydd o ddydd i ddydd yn HMPP.

**CTC**: Cliriad Gwrthderfysgaeth.

**DBS**: Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**HMIP**: Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi.

**IME2**: Hyfforddiant Gweinidogol Cychwynnol 2.

**PSI**: Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai.

# Rhagair

Mae swydd Caplan Anglicanaidd Carchar wedi'i diogelu yn y gyfraith. Yn ôl Deddf Carchardai 1952, dylai pob carchar, drwy statud, fod ag un. Ond mae'r swydd, ac yn fwyaf arbennig ei swyddogaeth o fewn tîm aml-ffydd, wedi newid llawer ers hynny.

Erbyn heddiw mae Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai, fel rhan o dîm aml-ffydd/cred, yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddarparu ymyriadau sy'n seiliedig ar ffydd a gofal bugeiliol yn y carchar, sydd wedi'u hintegreiddio i fywyd cymuned gyfan y carchar, lle maent yn ymateb i anghenion carcharorion a staff. Maent yn arwain yr addoliad, yn addysgu am y Beibl, ac yn gweinyddu sacramentau. Maent yn darparu gofal hollbwysig i garcharorion sydd mewn argyfwng, yn helpu unigolion drwy golled a phrofedigaeth (cyfredol neu hanesyddol), ac yn cynnig clust i wrando i unrhyw un sy'n teimlo bod pethau'n anodd. Maent yn siarad am edifeirwch, maddeuant a gobaith. Maent wedi cael eu galw – eu galw i weinidogaeth a all fod ar gyrion caled bywyd. Maent yn dosturiol – yn cyd-gerdded â phobl sydd wedi gwangalonni, sydd wedi cael eu brifo ac sy'n golledig. Maent yn ddewr – yn annog pobl i ddod o hyd i lwybr newydd a gwahanol.

Mae gwerthoedd Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn debyg i werthoedd HMPPS, fel Asiantaeth yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ehangach, ac mae'n atgoffa pobl o hyd o'r gwahaniaeth y gall Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai ei wneud i fywydau'r rhai sydd yn eu gofal, ac er mwyn cadw pobl (carcharorion a'r cyhoedd) yn ddiogel. Maent yn ceisio cynnal egwyddorion cwrteisi a dyngarwch, gan annog y rhai y maent yn gweithio â hwy ac yn eu plith i fod y gorau y gallant fod, a hynny fel rhan o dimau aml-ffydd/cred ac ehangach. Mae'r Fframwaith ar gyfer Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn ceisio atgoffa pawb bod Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn gwneud gwaith pwysig, ac mae'n dangos sut y gallant weithio mewn ffordd sy'n arloesi, sy'n seiliedig ar ddysgu a rennir, sy'n gydweithredol ac sy'n chwilio'n barhaus am syniadau a fyddai'n gwella'r gwasanaethau a ddarperir ac mewn ffordd gyson.

Rwy'n falch o gyflwyno'r Fframwaith hwn a'i gymeradwyo i chi. Rwy'n ddiolchgar i'r Parchedig Ganon Helen Dearnley, Cynghorydd Anglicanaidd HMPPS a'r tîm sy'n ei helpu am yr holl waith a wnaed i'w baratoi. Os oes gennych gwestiynau neu sylwadau sy'n ymwneud â'r Fframwaith, dylech eu cyfeirio at Helen. Mae ei manylion cysylltu i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen.

Mae'r Fframwaith, y mae ei gyfnod wedi'i ymestyn oherwydd y pandemig COVID-19, yn seiliedig ar ymchwil i'r swydd a'i gofynion, ac mae'n edrych yn strategol ar recriwtio, sut rydym yn cadw Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai, a sut y gallwn gynnig y gefnogaeth orau iddynt wrth iddynt fynd yn ôl i weinidogaethau mwy traddodiadol yn yr Eglwys. Mae'n rhoi cyfeiriad i Gaplaniaeth Anglicanaidd Carchardai, ac yn gosod y weinidogaeth hynod bwysig hon yng nghyd-destun nodau ac amcanion HMPPS, a chyfleu hyn i Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru.

Yr Hybarch James Ridge, Prif Gaplan a Phennaeth Gwasanaethau Ffydd

# Nod

Bwriad y Fframwaith hwn yw gwella dealltwriaeth o natur a diben gwaith Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn HMPPS ac yn Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru. Mae'n pwysleisio pa mor bwysig yw cael Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai, gan ddangos sut mae rôl Caplaniaid Anglicanaidd Carchar yn cyfrannu at gyflawni nodau HMPPS, yn ogystal â chyd-destun cenhadol Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru. Mae'n ddiwinyddol o ran ei ffurf, ac yn ymarferol o ran y canlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni.

Mae dull gweithredu strategol yn hanfodol i sicrhau ein bod yn tyfu ac yn datblygu Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai sydd wedi cael eu galw, sy'n dosturiol ac yn ddewr, sy'n ffynnu, sy'n deall cyfraniad eu gweinidogaeth i'r sefydliad, ac o fewn y sefydliad, ac sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn y gwaith y maent yn ei wneud.

Bydd y Fframwaith hwn yn ymdrechu i roi sylw i'r heriau y mae Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn eu hwynebu, gan gynnig ffordd ymlaen i sicrhau ei bod yn cael adnoddau a chymorth digonol, bod llwybrau clir ar gyfer y sawl sy'n ystyried galwad i Gaplaniaeth Anglicanaidd Carchardai – ar gyfer HMPPS ac Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru – a bod cymorth ystyrlon yn cael ei gynnig i'r sawl sy'n gadael y weinidogaeth.

Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gan Gynghorydd Anglicanaidd i HMPPS[1] y bydd nifer fawr o Gaplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn cyrraedd oedran ymddeol yn ystod y deng mlynedd nesaf, a bod angen ymagwedd strategol tuag at recriwtio i ddiwallu'r angen hwnnw. Dangoswyd hefyd yr angen i fuddsoddi mewn Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai, a'r angen i helpu'r rhai a fydd yn gadael HMPPS. Mae'r Fframwaith yn nodi tair blaenoriaeth: Recriwtio, Cadw, Ailintegreiddio. Mae hyn yn cael ei ategu gan dri Chynllun Cyflawni sy'n disgrifio'r trefniadau cyflawni ar gyfer pob blaenoriaeth ac maent yn cynnwys canllawiau manwl ategol pan fo hynny'n briodol.

Bydd y pedair blynedd nesaf yn caniatáu digon o amser i roi trefniadau cyflawni ymarferol ar waith. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal wedyn i gasglu adborth gan Gaplaniaid Anglicanaidd Carchardai. Cafodd y Fframwaith ei ddatblygu fel ymateb strategol i ymchwil a dadansoddiad o angen a gynhaliwyd yn flaenorol i Gaplaniaeth Anglicanaidd Carchardai a bydd y sylfaen dystiolaeth a gasglwyd yn ystod oes y Fframwaith yn dylanwadu ar gyfeiriad yr ymchwil honno yn y dyfodol.

[1] Dearnley, H., (2019), An Exploration of the Motivations, Role and Challenges of Anglican Prison Chaplains Post 2012, MSt Thesis Criminology (Penology and Management) Cambridge University.

# Trosolwg o Wasanaethau Caplaniaeth a Ffydd yn HMPPS

Mae HMPPS yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n gyfrifol am garchardai, prawf a gwasanaethau ieuenctid yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr. Mae Strategaeth Dwy Flynedd HMPPS yn disgrifio sut y byddwn yn cyflawni gweledigaeth y sefydliad o '[g]weithio gyda'n gilydd er mwyn amddiffyn y cyhoedd a helpu pobl i barchu'r gyfraith a byw bywydau cadarnhaol'. Rydym wedi ymrwymo i gryfhau'r ddarpariaeth ym mhob un o'r gwasanaethau carchardai drwy ein hegwyddorion busnes:

- galluogi ein pobl i fod gystal ag y gallant drwy recriwtio a hyfforddi'r bobl iawn yn ein lleoliadau unigryw;
- moderneiddio ein technoleg i wneud tasgau'n haws a gwella'r amodau y mae ein pobl yn byw a gweithio ynddynt;
- trawsnewid drwy bartneriaethau, yn fewnol ac yn allanol, i'n helpu i ddiwallu anghenion cymdeithasol a phersonol staff a'r bobl sydd yn ein gofal;
- ymwreiddio diwylliant dysgu agored, gyda hyfforddiant priodol a thystiolaeth i wneud penderfyniadau gwell am y gwasanaethau a ddarperir gennym.

Mae gan Wasanaethau Caplaniaeth a Ffydd HMPPS rôl allweddol i'w chwarae drwy helpu staff a phobl mewn carchardai i ganfod ffydd ac ystyr er mwyn ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned, lleihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd.

Mae gan garcharorion hawl i gofrestru ac ymarfer eu ffydd/cred tra byddant yn y ddalfa. Mae Gwasanaethau Caplaniaeth a Ffydd HMPPS wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion carcharorion, staff a thraddodiadau crefyddol/cred drwy ymgysylltu â phob profiad dynol, gan gydweithredu, a pharchu uniondeb pob traddodiad a disgyblaeth.

Rydym yn credu bod ffydd/cred a'r chwilio am ystyr yn cyfeirio ac yn ysbrydoli bywyd ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau gofodau cysegredig a thimau pwrpasol i ddwysau a chyfoethogi profiadau dynol.

Drwy ddathlu daioni bywyd ac ymchwilio i'r cyflwr dynol rydym yn ymdrechu i ennyn cyfrifoldeb ym mhob unigolyn i gyfrannu at les pawb. Byddwn yn cyfrannu tuag at ofal carcharorion er mwyn eu galluogi i barchu'r gyfraith a byw bywydau defnyddiol yn y ddalfa ac ar ôl cael eu rhyddhau.

Nod Gwasanaethau Caplaniaeth a Ffydd HMPPS yw:

- cefnogi a chynghori HMPPS wrth iddo ddarparu gofal ffydd/cred a bugeiliol i garcharorion a darparu safbwynt a chyfraniad ffydd at faterion/polisïau eraill, gan gynnwys cynnig safbwynt ffydd arbenigol i'r agenda eithafiaeth;
- darparu goruchwyliaeth broffesiynol a chefnogi'r gwaith o gyflawni Caplaniaeth gynhwysol sy'n gydnaws â'r Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai (PSI) ym mhob carchar;

- hybu ymgysylltiad â'r Fframwaith Partneriaeth Ffydd, sy'n sicrhau bod ffydd a chred yn elfen allweddol o'r agenda ailsefydlu, yn cael ei hyrwyddo drwy'r Gwasanaeth Prawf yn ei sgyrsiau ag unigolion cyn ac ar ôl rhyddhau.

Mae'r Gwasanaethau Caplaniaeth a Ffydd yn cyflenwi Caplaniaid i bob carchar yng Nghymru a Lloegr mewn partneriaeth â chymunedau ffydd, ac maent yn cael eu cefnogi gan rwydwaith o gynghorwyr ffydd a chred. Mae'r Gwasanaethau Caplaniaeth a Ffydd yn cael eu harwain gan y Prif Gaplan, sef Archddiacon Carchardai Ei Mawrhydi, sy'n gyfrifol am sicrhau bod anghenion pob traddodiad ffydd/cred yn cael eu diwallu. Mae cyfrifoldebau'r Prif Gaplan a'i dîm pencadlys aml-ffydd yn cynnwys rhoi cyngor i weinidogion [y Llywodraeth] a swyddogion ynglŷn â phenderfyniadau polisi â dimensiwn crefyddol neu ffydd.

Mae'r Gwasanaethau Caplaniaeth a Ffydd hefyd yn datblygu canllawiau gweithredol ar ymarfer ffydd a chred yn y carchar drwy rwydwaith o gynghorwyr ffydd a chred sy'n sicrhau bod pob Caplan wedi'i gymeradwyo'n briodol. Mae'r tîm yn ymweld yn rheolaidd â phob carchar i roi sicrwydd bod Gwasanaethau Caplaniaeth yn cael eu darparu i safon uchel yn unol â Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Carchar a disgwyliadau Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP).

Caiff Caplaniaid eu recriwtio, eu hyfforddi, eu lleoli a'u cefnogi yn eu gwaith i wasanaethu ar gyfer anghenion crefyddol pawb sydd yn y carchar. Byddant yn sicrhau cyfleoedd i addoli, ffurfio a chyfarwyddo a byddant yn cynnig gweinidogaeth fugeiliol i bawb ar adegau o argyfwng a llawenydd. Bydd Caplaniaid hefyd yn galluogi pobl i ddilyn holl draddodiadau ffydd cydnabyddedig HMPPS fel rhan o dimau aml-ffydd. Mae eu gweinidogaeth ar gael i'r staff bob amser.

# Trosolwg o Gaplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn HMPPS

Mae HMPPS yn ceisio gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn y cyhoedd a helpu pobl i barchu'r gyfraith a byw bywydau cadarnhaol. Mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn ceisio gwneud cyfraniad uniongyrchol tuag at hyn drwy ei gwaith gyda charcharorion ac ochr yn ochr â hwy yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa, gan ddod â gobaith, ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn, a helpu'r unigolyn i roi sylw i faterion fel edifeirwch – a'r cyfan yng nghyd-destun dathlu ffydd a chred, a gofal bugeiliol. Wrth i unigolion gynllunio ar gyfer eu rhyddhau, bydd Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai hefyd yn helpu i ganfod cysylltiadau cymunedol cadarnhaol posibl a byddant yn eu helpu i baratoi'n ymarferol, yn feddyliol ac yn ysbrydol.

Er mwyn galluogi Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai i fod y gorau y gallant fod, bydd Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai, drwy gyflawni'r Fframwaith hwn, yn ceisio darparu cyfleoedd i wella sgiliau, hyfforddiant ac adnewyddiad ysbrydol, yn ogystal â datblygu rhwydweithiau lleol. Bydd yn ceisio recriwtio Caplaniaid newydd sy'n gynhwysol ac sy'n ffynnu wrth weithio yn y ddalfa, ac yn y cyd-destun unigryw a ddarperir gan dîm aml-ffydd. Bydd hefyd yn ceisio sicrhau dros gyfnod bod gan bob sefydliad Gaplan Anglicanaidd, fel bod y carcharorion hynny sydd wedi cofrestru fel rhai sy'n perthyn i Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru yn gallu derbyn y gofal ysbrydol a bugeiliol y maent yn ei haeddu.

Bydd cyflawni'r Fframwaith ar gyfer Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn creu colegoldeb ymhlith Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai, a bydd yn hybu diwylliant agored a diwylliant o ddysgu y gall pawb fod yn rhan ohono – gan gynnwys rhannu adnoddau, gwybodaeth a phrofiad. Bydd hyn hefyd yn cael ei gymhwyso er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer lleoliadau a chyfleoedd dysgu i'r rhai hynny a allai fod yn teimlo galwad i Gaplaniaeth Anglicanaidd Carchardai.

Bydd yr holl waith hwn yn cael ei wneud yn awr ac yn y dyfodol drwy weithio mewn partneriaeth – partneriaeth rhwng HMPPS ac Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru, a rhwng timau aml-ffydd, amlddisgyblaethol ac ar draws sefydliadau cyfan sy'n gweithio yn y fan a'r lle, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i Gaplaniaid Anglicanaidd Carchardai ac i'r carcharorion.

# Sail Resymegol Ddiwinyddol Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai

Mae Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn cael eu cyflogi gan HMPPS, ond yn cael eu hawdurdodi a'u trwyddedu gan Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru i weinidogaethu mewn dalfeydd. Er bod eu rôl yn ymateb i weledigaeth ac amcanion strategol HMPPS, mae sail resymegol ddiwinyddol hefyd sydd wrth wraidd eu gweinidogaeth, ac mi fyddwn yn ymdrechu i'w hegluro yn yr adran hon. Mae'r sail resymegol honno'n genhadol, yn gydnaws â chyfeiriad yr eglwys Gristnogol ehangach ac Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru, ac wedi'i hamlinellu yn yr ordinal. Yn fwy na dim, mae'n Feiblaidd ei natur.

Datblygwyd y 'Pum Marc Cenhadaeth' gan y Cyngor Ymgynghorol Anglicanaidd ac maent yn cael eu derbyn yn gyffredinol gan Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru. Maent yn gofyn i'r eglwys 'gyhoeddi newyddion da'r deyrnas; addysgu, bedyddio a meithrin credinwyr newydd; ac ymateb i angen dynol drwy wasanaeth cariadus'.[2]

Mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn bodoli, felly, er mwyn 'ffurfio a meithrin Cristnogion sy'n gallu cyhoeddi a byw'r efengyl yn eu bywydau bob dydd, ymgysylltu'n hyderus ac yn ffyddlon â heriau cymhleth heddiw a dod yn bresenoldeb effeithiol i Grist yn eu cymunedau'.[3]

Wrth wneud hynny, mae Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn ceisio 'ymwneud â gwasanaeth Cristnogol drwy wasanaethu angen dynol, chwalu rhwystrau rhwng pobl, [a] cheisio cyfiawnder a heddwch'.[4] Ymhelaethir ar y pwynt olaf hwn yn Ordinal Eglwys Loegr, lle gelwir ar Offeiriaid i 'fwydo a darparu ar gyfer teulu [Duw], i chwilio am ei blant yn niffeithwch temtasiynau'r byd hwn, i'w harwain drwy ei ddryswch fel y caffont eu hachub trwy Grist am byth. Trwy'r gair dylent [Offeiriaid] alw ar eu gwrandawyr i edifarhau a datgan maddeuant pechodau yn enw Crist'.[5]

A siarad yn Feiblaidd, mae Iesu yn rhoi mandad clir: 'Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi'.[6]

---

[2] Richards, A. and The Mission Theology Advisory Group. (2017). The Five Marks of Mission – The Church of England. p.3.

[3] Archbishops' Council: Lay Leadership Group. (2017). Setting God's People Free.

[4] What is the World Council of Churches? Available at: https://www.oikoumene.org/en/about-us [Cyrchwyd 13 Gorffennaf 2019].

[5] The Ordination of Priests, also called Presbyters, Common Worship Ordination Services. Ar gael yn: https://www.churchofengland.org/prayer-and-worship/worship-texts-and-resources/common-worship/ministry/common-worship-ordination-services#mm013 [Cyrchwyd 13 Gorffennaf 2019]. Hefyd yn: The Charge taken from the Church in Wales Ordinal, 2004.

[6] Matthew 28.19-20, New Revised Standard Version Bible: Anglicized Edition, copyright © 1989, 1995 National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Defnyddiwyd drwy ganiatâd. Cedwir pob hawl yn fyd-eang.

Mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai felly'n ceisio creu cymunedau addolgar a ffyddlon o ddisgyblion, sy'n cael eu dwyn at ffydd, eu meithrin a'u cyfeirio at eglwysi croesawus ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, fel bod modd meithrin eu taith ffydd ymhellach.

Yn y modd hwn, mae Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn cael eu gweld fel presenoldeb *ymgnawdoliadol*[7], lle maent yn sefyll ochr yn ochr â'r rhai sydd yn eu gofal, mewn perthynas, gan ddod i adnabod yr unigolyn a'i stori a thystio i'w ffydd Gristnogol mewn gair a sacrament, ond hefyd mewn gweithred ac yn y ffordd y maent yn modelu perthnasoedd â phobl eraill, gan gynnwys rhai o wahanol ffydd a chredo.

Gellir dweud hefyd bod gan Gaplaniaid Anglicanaidd Carchardai bresenoldeb *proffwydol*[8], yn HMPPS. Mae hyn yn sail i'r alwad i 'geisio trawsnewid strwythurau anghyfiawn cymdeithas, i herio trais o bob math ac i geisio heddwch a chymod'.[9] Mae Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn cael y fraint o weithio ochr yn ochr â staff rheng flaen, ond mae ganddynt hefyd bresenoldeb ar lefel Llywodraethwyr. Mae hyn yn rhoi iddynt y cyfrifoldeb i fod yn llais i'r di-lais, gan herio'r sefydliad yn dringar os oes angen a siarad ar ran y rheolwyr lle bo'n briodol. Yn yr un modd, gall Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai hybu cyfiawnder, heddwch a chymod rhwng carcharorion a pherthnasoedd teuluol sydd wedi chwalu.[10]

Mae Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn cario baich, yn teithio gyda chymdeithion clwyfedig, yn bresenoldeb eiconig drwy eu hawl eu hunain a hefyd o ran sut maent yn ffurfio pont rhwng yr Eglwys a chymuned y carchar a "llidwyr cyfeillgar". Maent yn arweinwyr, yn dystion sy'n cyfeirio at Grist ac yn hyfforddwyr ffydd.[11]

Sail i hyn oll yw ymrwymiad personol i weddi ac eiriolaeth a pherthynas bersonol gref â Christ. Heb ei nerth a'i gryfder[12] ef ni fyddai'n bosibl cyflawni gweinidogaeth mor arswydus ac od o feichus, sydd er hynny'n rhoi cymaint o foddhad. Gelwir Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai i leoliad unigryw, i weinidogaethu i bobl o bob ffydd, credo a phobl heb ffydd, pan maent mewn angen: 'cyfarfod pobl lle maen nhw, eu gweld nhw yn wyneb Crist ac ymateb â thosturi i'w hanghenion'.[13]

[7] Williams, R.C. (2018). A Theology for Chaplaincy – Singing Songs in a Strange Land. Cambridge: Grove Booklets. p.17.

[8] Williams, R.C. (2018). A Theology for Chaplaincy – Singing Songs in a Strange Land. Cambridge: Grove Booklets. p.16.

[9] Richards, A. and The Mission Theology Advisory Group. (2017). The Five Marks of Mission – The Church of England. p.3.

[10] As invited to do according to the Prophet Micah 6.8, NRSV.

[11] Pritchard, J. (2007). The Life and Work of a Priest. London: SPCK.

[12] Trustees for Methodist Church Purposes. (1999). The Methodist Worship Book – The Covenant Service. Peterborough: Methodist Publishing. p.288.

[13] Williams, R.C. (2018). A Theology for Chaplaincy – Singing Songs in a Strange Land. Cambridge: Grove Booklets. p.5.

# Gosod y Cyfeiriad ar gyfer Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai

Mae'r Fframwaith hwn yn tynnu sylw at y camau gweithredu a'r cyfrifoldebau sydd eu hangen er mwyn sicrhau gweinidogaeth Anglicanaidd effeithiol yn HMPPS.

Mae'r Fframwaith hwn yn seiliedig ar ymchwil wedi'i thargedu sydd wedi amlygu'r prif heriau yn y dyfodol tymor canolig i hir. Mae'r Fframwaith hwn yn ymdrech i roi sylw i hyn. Mae ymchwil[14] yn dangos y bydd angen recriwtio niferoedd sylweddol i'r Gaplaniaeth Anglicanaidd Carchardai o fewn y deng mlynedd nesaf gan fod oedran canolrifol Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn 55-60. Mae rhai meysydd hefyd lle mae cryn heriau wrth geisio llenwi swyddi gwag. Mae rhai carchardai wedi bod heb Gaplan Carchardai Anglicanaidd ers cyfnod hir.

O'r Caplaniaid Anglicanaidd hynny sydd yn HMPPS ar hyn o bryd, dangoswyd eu bod yn aros mewn carchar am oddeutu pum mlynedd ar gyfartaledd a bod hyd eu gwasanaeth yn 11 mlynedd ar gyfartaledd. Mae'r rhain yn ystadegau calonogol, ond roedd yr ymchwil hefyd yn dangos bod Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn teimlo wedi'i hynysu oddi wrth eu hesgobaethau a bod y teimlad hwnnw'n cynyddu po fwyaf o amser yr oeddent yn ei dreulio yn y Gaplaniaeth Carchardai. Mae'r ymdeimlad hwn o ynysu'n amlwg yn effeithio ar hunaniaeth a gweinidogaeth rhai Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai. Fel corff felly, mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn cydnabod bod angen cryfhau cysylltiadau rhwng carchardai unigol a'u hesgobaethau a bydd yn ceisio rhoi sylw i hyn.

Dangosodd yr un ymchwil fod Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai a oedd yn dweud bod arnynt eisiau gadael y Gaplaniaeth Carchardai ac ymgymryd â gweinidogaeth blwyf yn ei chael hi'n anodd i drosglwyddo o garchar i blwyf. Fel corff, mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn ceisio mynd i'r afael mewn ffordd gynhwysfawr â'r materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai ac amlinellu trefniadau i helpu Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai i ailintegreiddio yn ôl yn eu plwyfi pan fo hynny'n briodol.

Mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn dymuno bod yn adnodd i HMPPS ac i Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru. I'r perwyl hwnnw, mae'r Fframwaith hwn yn cynnwys tair prif adran sy'n ystyried beth sydd ei angen i gynorthwyo yn y gwaith o recriwtio, cadw ac ailintegreiddio Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai. Bydd hyn yn cael ei ategu gan gyfres o ganllawiau polisi ar gyfer gweithgaredd craidd Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai. Yn ychwanegol at hyn, mae cyfres o atodiadau'n cynnwys cyngor ymarferol penodol.

Yn fwy na dim rhaid i Gaplaniaid Anglicanaidd Carchardai wasanaethu'r carcharorion a'r staff sydd yn eu gofal drwy weddi a gofal bugeiliol. Mae carcharorion yn gynulleidfa unigryw, pob un yn glwyfedig, a phob un yn chwilio am obaith. Mae'n bwysig bod carcharor yn cael cysondeb o ran cymuned, dull gweithredu a gofal, ni waeth i ba garchar y mae'n cael ei anfon.

[14] Dearnley, H., (2019), An Exploration of the Motivations, Role and Challenges of Anglican Prison Chaplains Post 2012, MSt Thesis Criminology (Penology and Management) Cambridge University.

Mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai hefyd yn awyddus i weld carcharorion yn cael eu helpu gan Gaplaniaid Anglicanaidd Carchardai i ddod o hyd i gymuned ffydd groesawus a fydd yn eu meithrin ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae'r ddogfen hon, felly, yn dwyn ynghyd y cyd-destun diwinyddol a'r cyd-destun y mae Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn gweithredu ynddo yn HMPPS.

# Blaenoriaethau

## Recriwtio

Mae HMPPS yn wynebu prinder o Gaplaniaid Anglicanaidd Carchardai, yn rhannol oherwydd y gyfradd ymddeol eithriadol o uchel a ragwelir (a allai fod cymaint â 70% yn y pum mlynedd o 2019 ymlaen[15]). Yn yr un modd, mae'r gwahaniaethau rhwng pecynnau cyflog y rhai mewn plwyfi a'r rhai sy'n gweithio i HMPPS, yn enwedig opsiynau o ran tai, yn her sylweddol.

Mae'n bwysig ein bod yn ceisio recriwtio ymgeiswyr o'r safon uchaf, fel y bydd ein Caplaniaid yn cynrychioli'r gymuned gystal â phosibl.

Mae ein prosesau recriwtio o reidrwydd yn fanwl ac yn drylwyr. Maent yn cynnwys cymeradwyaeth gan yr Eglwys, proses ymgeisio, didoli a chyfweld strwythuredig y cytunwyd arni gan HMPPS, a gwiriadau diogelwch llym, gan gynnwys yr angen am gliriadau ar lefel gwiriadau gwrthderfysgaeth. Mae diogelu hefyd yr un mor bwysig iawn, ynghyd â mesurau i sicrhau bod Caplaniaid sy'n cael eu recriwtio yn cael hyfforddiant trylwyr. Mae manylion am y prosesau recriwtio i'w gweld yn y Cynllun Cyflawni 'Recriwtio' sydd wedi'i atodi. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio'r meini prawf cymhwysedd a ddefnyddir, a throsolwg o'r broses recriwtio ddisgwyliedig. Mae Nodiadau Canllaw ychwanegol yn cynnwys briffiau ar gyfer cynrychiolwyr yr Eglwys sy'n cael eu cynnwys ar y panel recriwtio.

Cytunodd Synod Cyffredinol Eglwys Loegr yn ddiweddar (2019) y gall curadiaethau (swydd gychwynnol yn Eglwys Loegr ar ôl cwblhau hyfforddiant diwinyddol) ddigwydd yn awr mewn amgylchedd amhlwyfol i raddau helaeth. Mae Nodyn Canllaw ar gyfer darparu hyfforddiant o'r fath ar gael yn awr gan Gynghorydd Ffydd a Chredo Anglicanaidd HMPPS (manylion cyswllt isod).

Bwriedir cynnal cysylltiadau rheolaidd rhwng Cynghorydd Anglicanaidd HMPPS ac uwch swyddogion Eglwys Loegr / yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn â faint sydd angen eu recriwtio, a heriau cysylltiedig. Bydd cysylltiadau'n cael eu datblygu â phob un o'r colegau hyfforddi diwinyddol yng Nghymru a Lloegr.

[15] Dearnley, H., (2019), An Exploration of the Motivations, Role and Challenges of Anglican Prison Chaplains Post 2012, MSt Thesis Criminology (Penology and Management) Cambridge University.

# Cadw

Mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn ymdrechu i greu colegoldeb ymhlith Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai, lle bydd Caplaniaid yn cael eu helpu o'r canol a chan ei gilydd yn eu cydymdrechion. Mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai hefyd yn awyddus i gyfrannu at ddiwylliant yr ardal, gan annog a galluogi Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai i weithredu fel yr athrawon a'r bugeiliaid y galwyd hwy i fod. Er bod y diwylliant hwn wedi'i ffurfio'r un fath, cydnabyddir y bydd yn wahanol o ran ei weithrediad, gan ddibynnu ar y cyd-destun lleol.

Mae'n hanfodol bod y diwylliant hwn yn cael ei ffurfio a'i gyfleu'n eang ac yn greadigol i bob rhan o rwydwaith y Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai. Mae manylion am ffurf a strwythur datblygiad, twf a gweithrediad y diwylliant hwn i'w gweld yn y Cynllun Cyflawni 'Cadw', ond bydd yn ymgorffori modelau presennol yr Eglwys a HMPPS. Dylai hyn gynnwys yr hyfforddiant cyffredinol presennol gan y Gwasanaethau Caplaniaeth a Ffydd a phroses Adolygu Datblygiad Gweinidogol yr Eglwys. Bydd cyfleoedd Anglicanaidd penodol eraill ar gyfer hyfforddiant hefyd yn cael eu hystyried, er enghraifft cyfarfodydd a chynadleddau rhanbarthol.

Nod Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yw datblygu diwylliant agored o ddysgu ymhlith ei Gaplaniaid, lle neilltuir amser i wrando ar yr heriau a wynebir gan Gaplaniaid Anglicanaidd Carchardai wrth iddynt gyflawni eu gwaith, ac i ddatblygu dulliau o ymateb i'r heriau hynny mewn ffordd sy'n manteisio ar ddoethineb a phrofiad y rhai sy'n gwneud y gwaith, ac sy'n annog unigolion i dyfu a ffynnu yn eu gweinidogaethau, a thrwy hynny gynyddu cymhelliant a gwella cyfraddau cadw.

Bydd yr elfen hon o'r Fframwaith yn cael ei ffurfio a'i chefnogi gan God Arweinyddiaeth HMPPS wrth i ni geisio datblygu Caplaniaid sy'n ymwybodol yn bersonol, ac sy'n dymuno datblygu eu gwybodaeth broffesiynol; sy'n cyfathrebu ac yn cydweithio'n dda ac sy'n llawn tosturi; ac sy'n ysbrydoli, arloesi, a gweinidogaethu yn gwbl ddidwyll.

Mae rhagor o fanylion yn y Cynllun Cyflawni: 'Cadw'.

Mae gan y Cynghorydd Anglicanaidd i HMPPS gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y diwylliant hwn yn cael ei roi ar waith yn y tymor hir, gyda chymorth y rhai sy'n aelodau o Grŵp Datblygu Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai.

# Ailintegreiddio

Mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn ymwybodol, er bod gwasanaethu yn y lleoliad hwn yn fraint, nad yw'r weinidogaeth heb ei chostau. Mae hefyd yn nodi, lle bynnag y bo modd, ei bod yn dymuno hwyluso diwedd da i annog dechrau da wrth i'r unigolyn symud ymlaen i'r cam nesaf yn ei siwrnai weinidogaethol.

I alluogi hyn, gwneir pob ymdrech i sicrhau pontio diogel a thosturiol o HMPPS i gyfleoedd gweinidogaethu yn y dyfodol. Gwneir pob ymdrech i gysylltu ag Esgobion yr Esgobaethau a strwythurau Esgobaethol ehangach drwy gydol gweinidogaeth Caplan Anglicanaidd Carchar. Wrth i gyfnod y weinidogaeth yn HMPPS ddod i ben, bydd Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn gweithio â phob parti er mwyn sicrhau pontio mor hwylus â phosibl.

Mae'r Cynllun Cyflawni 'Ailintegreiddio' yn amlinellu'r mesurau amrywiol a ddefnyddir ar gyfer yr unigolyn. Mae hefyd yn galluogi HMPPS i gasglu data a gwneud sylwadau fel bod Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn gallu ymdrechu'n barhaus i ddarparu gwell cefnogaeth ac adnoddau i'r rhai sy'n paratoi i symud i weinidogaethau eraill neu i ymddeol. Gobeithir y bydd themâu'n dod i'r amlwg a fydd yn helpu i ddangos beth sy'n gweithio, ac y bydd Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai, drwy wrando ar brofiadau amrywiol y rhai sydd wedi gwasanaethu, yn gallu adeiladu ar y syniadau sydd yn y Fframwaith hwn a'i Gynlluniau Cyflawni er mwyn gwella canlyniadau i garcharorion a gwella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i HMPPS.

# Casgliad

Yr hyn a fydd yn allweddol i ddeall llwyddiant y Fframwaith hwn fydd monitro'n rheolaidd y rhyngweithio ag Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei adleisio yn amgylchedd y carchardai drwy adolygu atebolrwydd Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn ei gymorth i gaplaniaid. Gwneir hyn drwy recriwtio effeithiol, gan rymuso caplaniaid yn eu rolau a helpu caplaniaid wrth iddynt integreiddio i weinidogaethau eraill.

I grynhoi, mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn edrych ymlaen at weithredu newid gwirioneddol yn y ffyrdd allweddol canlynol:

dod â'r Eglwys a HMPPS at ei gilydd ym mhob mater sy'n gysylltiedig â Chaplaniaeth Anglicanaidd Carchardai, a thrwy hynny drawsnewid partneriaethau a gwaith Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai;

sicrhau bod Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai yn gallu bod gystal ag y gallant fod drwy greu siwrnai sy'n cael ei chefnogi a'i galluogi, a lle darperir adnoddau priodol yn ystod eu cyfnod yn HMPPS;

creu diwylliant o golegoldeb a gofal ymhlith Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai;

meithrin Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai sydd *wedi'u Galw, sy'n Dosturiol ac yn Ddewr*;

cynorthwyo Caplaniaid Anglicanaidd Carchardai i symud o HMPPS yn ôl i ofalaeth plwyf (neu leoliadau eraill).

Yn hyn oll, mae Caplaniaeth Anglicanaidd Carchardai yn ymrwymo i weddïo dros bob Caplan Anglicanaidd Carchar, dros garcharorion a staff y gofelir amdanynt a thros yr Eglwys y mae pob un ohonom yn gwasanaethu yn ei henw – yn nerth Duw, a Duw yn unig.

# Cysylltu

Gellir cysylltu â'r Parchedig Ganon Helen Dearnley, Cynghorydd Anglicanaidd HMPPS fel a ganlyn:

- Ffôn: 07891 121388
- E-bost: helen.dearnley@justice.gov.uk